Cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150

Adroddiad Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

CYNNWYS

1. **CRYNODEB GWEITHREDOL** 2
2. **Y CEFNDIR** 2
3. **Y BROSES YMGYNGHORI** 3
4. **DADANSODDI'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD** 4
5. **Y SYLWADAU A DDAETH I LAW** 5
6. **CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL** 5
7. **CANFYDDIADAU'R YMGYNGHORI Â'R DISGYBLION AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL** 13
8. **YMATEB ESTYN** 16
9. **OPSIYNAU AMGEN** 18
10. **NEWIDIADAU SY'N DEILLIO O'R YMGYNGHORIAD** 19
11. **CASGLIAD** 19
12. **ARGYMHELLIAD** 20
13. **Y CAMAU NESAF** 20
14. **ATODIAD A – YMATEB ESTYN** 21
15. **ATODIAD B – DADANSODDIAD SWOT O'R OPSIYNAU AMGEN** 23

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Cafwyd cyfanswm o 46 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol ynglŷn â'r cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150. O'r 46 o ymatebion a ddaeth i law, nododd 42 o'r ymatebwyr (91%) eu bod yn cefnogi'r cynnig a nododd 4 o'r ymatebwyr (9%) nad oeddent yn ei gefnogi. Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn dangos cefnogaeth gref a chadarnhaol i'r cynnig ac mae'r mwyafrif llethol yn cydnabod yr angen brys am ysgol bwrpasol newydd a'r manteision y byddai'n eu cynnig i ddisgyblion, staff a theuluoedd. O ran yr ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnig, yn bennaf mynegwyd pryderon ynghylch capasiti arfaethedig yr ysgol newydd, yn hytrach na gwrthwynebu darparu ysgol newydd ynddo'i hun.

Mae'r rhanddeiliaid yn tynnu sylw yn gyson at ddiffygion yn y ddarpariaeth bresennol ac yn cytuno'n fras bod angen buddsoddiad i wella deilliannau a bodloni'r galw cynyddol. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth hon yn mynd law yn llaw â phryder clir sy'n codi dro ar ôl tro ynghylch a fydd y capasiti arfaethedig yn ddigonol yn y tymor hir, gyda llawer o'r ymatebwyr yn annog diogelu'r ddarpariaeth at y dyfodol a'i hehangu. O ganlyniad, er bod mandad clir o blaid y datblygiad, mae'r adborth hefyd yn dangos pwysigrwydd sicrhau bod yr ateb yn cael ei ddiogelu at y dyfodol, a'i fod yn gynaliadwy ac yn ymatebol i'r galw cynyddol o ran ADY.

2. Y CEFNDIR

Comisiynodd yr Awdurdod Lleol adolygiad annibynnol yn dilyn ei benderfyniad yn 2024 i beidio â bwrw ymlaen â'r adeilad newydd â 120 o leoedd a gymeradwywyd yn flaenorol ar gyfer Ysgol Heol Goffa. Nododd yr adolygiad fod yr adeiladau ysgol presennol mewn cyflwr gwael a bod angen gwaith adfer sylweddol arnynt, ac nad oeddent yn addas ar gyfer darparu amgylchedd dysgu modern a hygyrch i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) difrifol a chymhleth.

Mae'r galw am ddarpariaeth arbenigol yn ardal Llanelli yn parhau i fod yn fwy na'r capasiti sydd ar gael, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Difrifol (ADD), Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog (ADDLl) a Chyflyrau Sbectrwm Awtistig (CSA). Mae'r ffaith bod Ysgol Heol Goffa yn gweithredu y tu hwnt i'w chapasiti, sef 118 o leoedd, gyda 132 o ddisgyblion ar y gofrestr ar ddyddiad CYBLD Ionawr 2026, yn dystiolaeth o hyn.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad mai datblygu ysgol arbennig newydd â 150 o leoedd yw'r ateb mwyaf effeithiol ac ariannol gynaliadwy i ateb y galw ar hyn o bryd ac yn y

dyfodol, gwella amgylcheddau dysgu, a chefnogi darpariaeth ADY o ansawdd uchel. Y cynnig felly yw symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i fynd i'r afael yn well â'r pwysau cyfredol a'r pwysau a ragwelir ar leoliadau arbenigol yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Mae'r cynnig hefyd yn rhan o ddull strategol ehangach yr Awdurdod o gynllunio a chyflwyno darpariaeth ADY ar draws Llanelli a Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd. Ochr yn ochr â'r ysgol newydd arfaethedig, mae'r Awdurdod yn parhau i ddatblygu darpariaeth Cyflyrau Sbectrwm Awtistig (CSA) arbenigol yng Nghanolfan y Môr ar gyfer disgyblion uwchradd yn ogystal â darparu lleoedd CSA ychwanegol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd eraill ledled Sir Gaerfyrddin, yn unol â'r adolygiad annibynnol o'r ddarpariaeth arbenigol. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r galw drwy ei brosesau cynllunio digonolrwydd ADY i sicrhau bod anghenion presennol ac anghenion yn y dyfodol yn cael eu nodi a bod darpariaeth arbenigol briodol ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr ledled y sir.

3. Y BROSES YMGYNGHORI

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Rhoddodd y broses ymgynghori gyfle i ymgyngoreion ddysgu am y cynnig a rhoi adborth.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori yn Gymraeg ac yn Saesneg rhwng 9 Mehefin 2026 a 21 Gorffennaf 2026. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei dosbarthu'n electronig i ymgyngoreion a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r cynnig dan sylw, y rhesymau dros y cynnig a manylion y broses ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Rhoddwyd gwybod i'r ymgyngoreion fod modd llenwi fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ffurflen ar-lein a ble y dylid anfon llythyrau ysgrifenedig neu ymatebion drwy e-bost.

Ymgynghorwyd â disgyblion Ysgol Heol Goffa ar 6 Gorffennaf 2026. Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori bwrpasol gyda 15 o ddisgyblion rhwng 15 a 18 oed, gan gynnwys cynrychiolwyr y Cyngor Ysgol a disgyblion eraill oedd â diddordeb. Cafodd y dysgwyr ddogfen ymgynghorol i Blant a Phobl Ifanc a gwybodaeth am y cynnig cyn cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp strwythuredig. Roedd y sesiwn yn galluogi'r disgyblion i drafod y cynnig, gofyn cwestiynau a rhannu eu barn am fanteision posibl ysgol

bwrpasol newydd. Mae crynodeb o'r adborth a gafwyd wedi'i nodi yn Adran 7 o'r adroddiad hwn.

4. DADANSODDI'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Mae'r ymatebion a ddaeth i law rhwng 9 Mehefin 2026 a 21 Gorffennaf 2026 wedi'u nodi isod:

Arolwg ar-lein	E-bost	Llythyr	Cyfanswm
46	0	0	46

* *Y ffigur o 46 yw'r ymatebion (wedi'u gwirio) i'r arolwg ar-lein gan oedolion a gafodd eu cyfrif yn y cyfansymiau ymgynghori ffurfiol. Casglwyd ymatebion disgyblion trwy broses ymgysylltu ar wahân ac maent yn cael eu hadrodd ar wahân yn Adran 7 o'r adroddiad hwn.*

Cafwyd cyfanswm o 46 o ymatebion ar-lein i'r prif arolwg snap yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid fel y nodir isod:

Categori'r Ymatebydd	Nifer	Canran
Rhiant, gofalwr neu warcheidwad	9	20%
Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad	1	2%
Llywodraethwr	6	13%
Staff	7	15%
Aelod o'r gymuned	15	33%
Cyngor Cymuned	2	4%
Arall	11	24%

Sylwch: Roedd yr ymatebwyr yn gallu nodi eu bod yn rhan o fwy nag un categori lle roedd hynny'n berthnasol (er enghraifft, fel rhiant/gofalwr ac aelod o staff). O ganlyniad, mae'r cyfanswm cyfunol ar draws yr holl gategorïau ymatebwyr yn fwy na 46 ac nid yw'r canrannau a ddangosir yn gwneud cyfanswm o 100%.

Yn ogystal â'r uchod, cyflwynodd Estyn ymateb i'r ymgynghoriad (gweler Adran 8), ac mae'r ymateb llawn wedi'i ddarparu yn Atodiad A. Casglwyd adborth gan ddisgyblion drwy sesiynau gyda'r ysgol, fel y disgrifir yn Adran 3, a chyflwynir y canlyniadau yn Adran 7.

5. Y SYLWADAU A DDAETH I LAW

Bydd yr adran hon yn crynhoi'r ymatebion / sylwadau a ddaeth i law ynghylch y cynnig, gan dynnu sylw at y themâu sydd wedi dod i'r amlwg ac ymatebion yr Awdurdod Lleol.

Dadansoddiad Thematig o'r Adborth

O'r ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, daeth y themâu canlynol i'r amlwg:

- Yr angen am ysgol newydd
- Capasiti, y galw yn y dyfodol a chynllunio'r ddarpariaeth
- Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg
- Y galw o ran ADY a thegwch
- Nid yw'r adeilad presennol yn addas i'r diben
- Manteision o ran llesiant a dysgu
- Safle, Mynediad a'r Effaith ar y Gymuned

6. CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Mae'r tabl canlynol yn nodi themâu'r sylwadau a ddaeth i law. Mae'r holl ymatebion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi cael eu hystyried yn llawn gan yr Awdurdod yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) ac maent wedi llywio'r casgliadau a'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn.

Methodoleg

Mae'r dadansoddiad thematig a gyflwynir isod yn seiliedig ar y materion a nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Gallai un ymateb gynnwys sylwadau sy'n ymwneud â mwy nag un thema. Felly, mae'r cyfrif yn adlewyrchu nifer yr ymatebion y nodwyd thema ynddynt a gallai ymatebion gyfrannu at sawl thema. O ganlyniad, nid yw swm y cyfansymiau a'r canrannau a ddangosir yn 100%.

Thema: **Yr angen am ysgol newydd**	**Nifer yr Ymatebion** **Canran**	**25** **54%**
Crynodeb o'r Ymatebion: Mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr o blaid datblygu ysgol newydd, gan nodi ei bod yn hen bryd ei chael a'i bod yn hanfodol. Mae llawer yn pwysleisio nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol ac y byddai cyfleuster newydd o fudd sylweddol i ddisgyblion, teuluoedd a staff.		

Ymateb yr Awdurdod Lleol:

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r gefnogaeth gref i ddatblygu ysgol newydd ac yn cydnabod yr angen brys a fynegwyd gan randdeiliaid. Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori yn cadarnhau bod mwy o blant yn yr ysgol bresennol na'r lleoedd sydd ar gael a bod y galw am ddarpariaeth arbenigol yn cynyddu ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn hanfodol datblygu ysgol newydd nid yn unig i fynd i'r afael â'r materion presennol o ran nifer y lleoedd a'r adeilad, ond hefyd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynaliadwy ac yn ymatebol i'r galw yn y dyfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â dyletswydd statudol yr Awdurdod i ddarparu addysg addas a digonol i ddysgwyr ag ADY, ac ag egwyddorion Cod ADY 2025, sy'n pwysleisio ymyrraeth gynnar, cynhwysiant a darpariaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r cynnig yn rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg ac mae'n ceisio mynd i'r afael â'r angen hwn drwy ddarparu cyfleuster pwrpasol wedi'i gynllunio i fodloni gofynion ADY ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Nod y cyfleuster newydd yw darparu amgylchedd dysgu cynhwysol o ansawdd uchel â mannau addysgu arbenigol, darpariaeth therapiwtig, a gwell hygyrchedd, gan sicrhau bod y disgyblion yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth sy'n cyd-fynd yn briodol â chymhlethdod eu hanghenion. Mae'r Awdurdod o'r farn bod angen ysgol newydd i sicrhau bod y disgyblion yn gallu cael mynediad at amgylcheddau addas sy'n cefnogi dysgu, llesiant ac annibyniaeth.

Thema: Capasiti, y galw yn y dyfodol a chynllunio'r ddarpariaeth	**Nifer yr Ymatebion** **Canran**	**21** **46%**

Crynodeb o'r Ymatebion: Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'n helaeth y cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Heol Goffa ac yn cydnabod y galw cynyddol am ddarpariaeth ADY arbenigol ledled Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, mynegodd nifer sylweddol bryder efallai na fyddai'r capasiti arfaethedig, sef 150 o leoedd, yn ddigonol i ateb y galw yn y dyfodol ac y gallai fynd yn orlawn mewn byr o amser.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at y cynnydd yn nifer y disgyblion, pwysau parhaus ar ddarpariaeth arbenigol a'r angen i ddiogelu'r datblygiad at y dyfodol. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys cynyddu'r capasiti arfaethedig y tu hwnt i 150 o leoedd, sicrhau bod yr ysgol newydd yn gallu ehangu yn y dyfodol, creu darpariaeth arbenigol ychwanegol mewn mannau eraill yn y sir, ac edrych ar fodelau darpariaeth amgen i ateb y galw yn y tymor hwy. Hefyd cwestiynodd un ymatebydd flaenoriaethau buddsoddi cyfalaf blaenorol ac awgrymodd y dylid cyfeirio mwy o gyllid at ddarpariaeth ADY arbenigol er mwyn galluogi datblygiad mwy.

Ymateb yr Awdurdod Lleol:

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch y galw presennol a'r galw yn y dyfodol am ddarpariaeth ADY arbenigol ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod digon o leoedd ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd o 118 i 150 yn ehangu'r ddarpariaeth arbenigol yn sylweddol ac mae wedi'i ddatblygu yn dilyn dadansoddiad manwl o'r galw presennol, tueddiadau demograffig, a chanfyddiadau'r adolygiad annibynnol o ddarpariaeth arbenigol. Mae'r capasiti arfaethedig o 150 wedi'i lywio gan ddadansoddiad o'r pwysau presennol ar leoliadau, patrymau twf hanesyddol, tueddiadau atgyfeirio a datblygiadau darpariaeth arbenigol ehangach ledled Sir Gaerfyrddin. Er bod rhagweld y galw am leoedd ysgol arbennig yn y dyfodol yn ei hanfod yn anodd oherwydd anghenion cymhleth ac unigol dysgwyr, mae'r cynnydd yn gyfystyr â darparu 32 o leoedd yn fwy na'r capasiti presennol ac yn darparu lleoedd sylweddol ychwanegol uwchlaw niferoedd disgyblion presennol.

Mae'r Awdurdod o'r farn bod y capasiti arfaethedig yn ymateb priodol y gellir ei gyflawni i'r angen a nodwyd, gan barhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol.

Mae'r Awdurdod yn nodi'r farn a fynegwyd gan un ymatebydd ynghylch penderfyniadau buddsoddi cyfalaf blaenorol a dyrannu cyllid o fewn yr ystad addysg. Mae penderfyniadau buddsoddi cyfalaf yn cael eu gwneud yng nghyswllt Rhaglen Moderneiddio Addysg ehangach yr Awdurdod, gan gynnwys unrhyw gymeradwyaethau / prosesau statudol sydd eu hangen, yr adnoddau sydd ar gael, ystyriaethau o ran fforddiadwyedd a threfniadau cyllido Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnig presennol wedi'i ddatblygu ar ôl arfarniad manwl, adolygiad annibynnol ac asesiad o'r angen, a chredir ei fod yn ateb priodol, cyraeddadwy a chynaliadwy yn ariannol i fynd i'r afael â'r galw presennol a'r galw a ragwelir am ddarpariaeth ADY arbenigol.

Mae'r cynnig hefyd yn rhan o ddull strategol ehangach yr Awdurdod o gynllunio a chyflwyno darpariaeth ADY ar draws Llanelli a Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd. Ochr yn ochr â'r ysgol newydd arfaethedig, mae'r Awdurdod yn parhau i ddatblygu darpariaeth Cyflyrau Sbectrwm Awtistig (CSA) arbenigol yng Nghanolfan y Môr ar gyfer disgyblion uwchradd yn ogystal â darparu lleoedd CSA ychwanegol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd eraill ledled Sir Gaerfyrddin, yn unol â'r adolygiad annibynnol o'r ddarpariaeth arbenigol. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r galw drwy ei brosesau cynllunio digonolrwydd ADY i sicrhau bod anghenion presennol ac anghenion yn y dyfodol yn cael eu nodi a bod darpariaeth arbenigol briodol ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr ledled y sir.

Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi'r awgrymiadau ynghylch modelau darpariaeth amgen. Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu fel rhan o raglen ehangach o gynllunio darpariaeth arbenigol ar draws

Sir Gaerfyrddin, sy'n cynnwys datblygu gwahanol fathau o gymorth arbenigol ac opsiynau lleoliadau i ddiwallu anghenion amrywiol a datblygol dysgwyr ag ADY.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd hyblygrwydd yn y dyfodol a bydd yn ystyried cyfleoedd ar gyfer ehangu ac addasu drwy'r broses dylunio a datblygu lle bo hynny'n bosibl. Mae'r dull strategol hwn yn ceisio sicrhau bod darpariaeth arbenigol yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn ymatebol a'i fod yn gallu diwallu anghenion amrywiol a datblygol dysgwyr ledled y sir.

Thema: Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg	**Nifer yr Ymatebion**	**18**
	Canran	**39%**

Crynodeb o'r Ymatebion: Roedd yr ymatebion yn ymwneud â'r Gymraeg yn amrywiol ond yn gyffredinol yn nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y gallai cyfleusterau gwell gefnogi'r gwaith o ddatblygu amgylcheddau dysgu dwyieithog a chynyddu cyfleoedd i blant a staff ymgysylltu â'r Gymraeg.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod nifer briodol o staff sy'n siarad Cymraeg a chynnal diwylliant dwyieithog amlwg drwy arwyddion, deunyddiau dysgu a chyfathrebu bob dydd. Hefyd nododd rhai ymatebwyr gyfleoedd i gydweithio'n agosach â lleoliadau addysgol cyfagos i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.

Nododd nifer o ymatebwyr fod gan lawer o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Heol Goffa anghenion cyfathrebu cymhleth, gan gynnwys defnyddio systemau cyfathrebu amgen ac atgyfnerthol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn y dylid cyflwyno'r ddarpariaeth Gymraeg mewn modd hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n adlewyrchu anghenion a galluoedd disgyblion unigol. Er bod rhai ymatebwyr o'r farn bod datblygu sgiliau Cymraeg yn bwysig, roedd eraill o'r farn mai anghenion cyfathrebu ac addysgol arbenigol ddylai fod y brif ystyriaeth o hyd.

Ymateb yr Awdurdod Lleol:

Mae'r Awdurdod yn nodi'r amrywiaeth o safbwyntiau a fynegwyd ynglŷn â darpariaeth Gymraeg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig drwy well cyfleusterau, mwy o gyfleoedd cyfoethogi ac ymgysylltu cryfach â'r gymuned.

Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn agos â nodau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, yn enwedig mewn perthynas â chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a datblygu hyder mewn cyfathrebu'n ddwyieithog. Bydd yr amgylchedd ysgol newydd yn galluogi ethos dwyieithog mwy strwythuredig ac amlwg drwy ddarpariaeth well fel arwyddion dwyieithog, profiadau dysgu wedi'u cyfoethogi, a gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol estynedig sy'n hyrwyddo defnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau ystyrlon.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bydd yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth ddwyieithog sy'n briodol i anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd angen dulliau cyfathrebu amgen.

Thema: Y galw o ran ADY a thegwch	**Nifer yr Ymatebion** **Canran**	**10** **22%**

Crynodeb o'r Ymatebion: Mae'r ymatebwyr yn pwysleisio'n gryf y galw cynyddol am ddarpariaeth ADY a'r angen am fynediad teg at gyfleusterau o ansawdd uchel. Mae llawer yn nodi bod disgyblion ag anghenion ychwanegol yn haeddu'r un safonau â'r rhai mewn addysg brif ffrwd.

Ymateb yr Awdurdod Lleol:

Mae'r Awdurdod yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd sicrhau bod gan ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fynediad teg at gyfleusterau a darpariaeth o ansawdd uchel, sy'n debyg i'r rhai sydd ar gael mewn addysg brif ffrwd. Mae'r cynnig yn ceisio mynd i'r afael â materion hanesyddol yn ymwneud â'r adeilad drwy ddarparu cyfleusterau arbenigol sydd wedi'u cynllunio'n benodol o amgylch anghenion y dysgwyr.

Bydd datblygiad arfaethedig Ysgol Heol Goffa yn darparu amgylchedd dysgu modern a phwrpasol wedi'i gynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu cymhleth. Bydd hyn yn gwella ansawdd y cyfleusterau yn sylweddol, gan sicrhau bod dysgwyr yn elwa ar adeilad priodol a hygyrch o safon uchel sy'n cefnogi dysgu a llesiant.

Mae Cod ADY yr Awdurdod 2025 yn rhoi pwyslais cryf ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i theilwra i anghenion dysgwyr unigol ac yn cefnogi deilliannau cadarnhaol. Bydd y broses o ddylunio a chyflwyno'r ddarpariaeth newydd yn

adlewyrchu'r egwyddorion hyn, gan alluogi cymorth hyblyg, cynhwysol ac ymatebol i ddisgyblion ag amrywiaeth eang o anghenion.

Mae Ysgol Heol Goffa yn rhan o gontinwwm darpariaeth ehangach ar draws Sir Gaerfyrddin. Ochr yn ochr â'r cynnig hwn, mae'r Awdurdod yn parhau i ehangu ac adolygu'r ddarpariaeth arbenigol yn ardal Llanelli, gan gynnwys darpariaeth sy'n canolbwyntio ar CSA yng Nghanolfan y Môr, mewn ymateb i'r galw cynyddol.

Mae'r dull strategol hwn yn sicrhau:

- bod dysgwyr yn cael eu cefnogi mewn amgylcheddau sy'n briodol i'w math o angen a chymhlethdod yr angen hwnnw;
- bod capasiti ac ansawdd y ddarpariaeth yn cael eu gwella ar draws sawl lleoliad;
- bod dysgwyr, lle bynnag y bo modd, yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth yn agos at eu cartref a'u cymuned.

Mae'r dull hwn yn cefnogi dyletswydd statudol yr Awdurdod i sicrhau darpariaeth ADY addas a digonol, wrth hyrwyddo cyfle cyfartal a sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn elwa ar brofiadau addysgol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Thema: Nid yw'r adeilad presennol yn addas i'r diben	**Nifer yr Ymatebion** **Canran**	**10** **22%**

Crynodeb o'r Ymatebion: Mae'r ymatebwyr yn aml yn nodi bod yr adeilad presennol yn hen, yn anaddas ac yn rhwystrol. Mae'r pryderon yn canolbwyntio ar le cyfyngedig, cyfleusterau gwael, a'r anallu i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY yn effeithiol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol:

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon ynghylch addasrwydd yr adeilad presennol. Yn ei arolygiad diweddar (Tachwedd 2025) nododd Estyn fod llawer o ystafelloedd dosbarth yn rhy fach i ddarparu ar gyfer dysgwyr yn ddiogel ac yn effeithiol, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio cadair olwyn, a nododd ddiffygion mewn cyfleusterau arbenigol a therapi. Mewn ymateb i hyn, gwnaed gwaith i wella adeilad presennol Ysgol Heol Goffa yn y tymor byr gan ddefnyddio grant anghenion dysgu ychwanegol Llywodraeth Cymru.

Bwriad yr ysgol newydd arfaethedig yw mynd i'r afael â'r materion hyn drwy ddarparu cyfleusterau modern, hygyrch ac arbenigol, gan gynnwys mannau therapi, ystafelloedd dosbarth gwell ac amgylcheddau wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion difrifol a chymhleth. Mae hyn yn cyd-fynd â dyletswydd yr Awdurdod i ddarparu darpariaeth addysgol briodol. Bydd hyn yn golygu bod modd cyflwyno'r cwricwlwm yn fwy effeithiol, yn cefnogi gwaith amlasiantaeth, ac yn gwella llesiant, annibyniaeth a deilliannau addysgol cyffredinol disgyblion.

Felly, mae'r Awdurdod o'r farn bod datblygu adeilad newydd sy'n addas i'r diben yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd sy'n cyrraedd y safonau cyfredol ac sy'n adlewyrchu arferion gorau mewn darpariaeth ADY arbenigol. Mae hyn yn cyd-fynd â dyletswydd statudol yr Awdurdod i ddarparu addysg addas, ddigonol a phriodol i bob dysgwr.

Thema: Manteision o ran llesiant a dysgu	**Nifer yr Ymatebion** **Canran**	**9** **20%**

Crynodeb o'r Ymatebion: Mae'r ymatebwyr yn credu y bydd ysgol newydd yn gwella deilliannau, llesiant a chyfleoedd disgyblion. Credir bod cyfleusterau gwell yn galluogi addysgu gwell, cyfathrebu gwell, ac amgylcheddau mwy cefnogol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol:

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cyfleusterau gwell yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar lesiant a deilliannau addysgol dysgwyr. Mae tystiolaeth yn yr ymgynghoriad a'r asesiad effaith yn tynnu sylw at y ffaith bod yr amgylchedd presennol yn cyfyngu ar agweddau ar ddysgu, annibyniaeth a chymorth therapiwtig.

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn darparu amgylcheddau gwell, gan gynnwys mannau synhwyraidd a therapiwtig, y disgwylir iddynt gefnogi ymgysylltu, cyfathrebu a datblygiad cyffredinol. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau Estyn y byddai gwelliannau i'r adeilad yn gwella deilliannau ymhellach.

Disgwylir i'r gwelliannau hyn wneud y canlynol:

- gwella ennyn diddordeb disgyblion a'u cyfranogiad mewn dysgu
- helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ac annibyniaeth
- gwella mynediad at ymyriadau therapiwtig a chymorth amlasiantaeth
- cryfhau llesiant cyffredinol a pharodrwydd i ddysgu

Yn ogystal, bydd yr amgylchedd gwell yn galluogi staff i gyflwyno cwricwlwm ehangach a mwy hyblyg, gan wneud mwy o ddefnydd o fannau ac adnoddau arbenigol i ddiwallu anghenion unigol yn fwy effeithiol.

Felly, mae'r Awdurdod o'r farn bod darparu amgylchedd dysgu modern sy'n addas i'r diben yn ffactor allweddol wrth wella llesiant a deilliannau addysgol. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau Estyn y byddai gwelliannau i'r adeilad yn gwella deilliannau disgyblion ymhellach ac yn cefnogi ymrwymiad yr Awdurdod i ddarparu darpariaeth gynhwysol o ansawdd uchel i ddysgwyr sydd ag ADY.

Thema: Safle, Mynediad a'r Effaith ar y Gymuned	**Nifer yr Ymatebion** **Canran**	**5** **11%**

Crynodeb o'r Ymatebion: Mynegwyd rhai pryderon am draffig, parcio, diogelwch, a mynediad i'r safle. Awgrymodd yr ymatebwyr welliannau fel gwell seilwaith ac atebion cynllunio sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Ymateb yr Awdurdod Lleol:

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â mynediad i'r safle, traffig, parcio a diogelwch, ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y datblygiad arfaethedig yn integreiddio'n effeithiol â'r gymuned gyfagos a'r seilwaith lleol. Dewiswyd y safle arfaethedig yn dilyn asesiad o addasrwydd addysgol, hygyrchedd, y tir sydd ar gael, a'r gallu i'w fforddio a'i gyflawni. Mae lleoliad y safle ym mherchnogaeth yr Awdurdod Lleol yn lleihau'r risg datblygu ac yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer cydweithio â chyfleusterau addysgol a gwasanaethau cymunedol cyfagos.

Mae Asesiad manwl o'r Effaith ar y Gymuned yn nodi, ar y cyfan, fod y lleoliad arfaethedig yn gwella hygyrchedd o'i gymharu â'r safle presennol. Mae gan y lleoliad newydd fynediad uniongyrchol at lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus ac mae'n agosach at hybiau trafnidiaeth allweddol, gan gynnwys cysylltiadau bysiau a rheilffyrdd, a fydd yn gwella hygyrchedd i staff, ymwelwyr a defnyddwyr cymunedol. Mewn cyferbyniad, mae'r safle presennol yn fwy cyfyngedig ac yn llai cysylltiedig â seilwaith trafnidiaeth.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod potensial ar gyfer effeithiau lleol mewn perthynas â thraffig a pharcio, fel yn achos unrhyw ddatblygiad o'r maint hwn. Bydd y materion hyn yn cael eu

hystyried yn llawn drwy'r broses dylunio a chynllunio fanwl, gan gynnwys asesiadau o'r effaith ar draffig, cynllunio trafnidiaeth, a mesurau lliniaru priodol. Bydd hyn yn sicrhau bod materion fel mynediad diogel, trefniadau gollwng a mannau parcio wedi'u cynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion y disgyblion, y mae angen cludiant arbenigol ar lawer ohonynt, yn ogystal â tharfu cyn lleied â phosibl ar y gymuned leol.

Yn bwysig ddigon, mae'r datblygiad arfaethedig hefyd yn darparu cyfle i wella defnydd cymunedol a buddion ehangach i'r gymuned. Mae dyluniad yr ysgol newydd yn cynnwys mannau modern a hyblyg sy'n gallu cefnogi amrywiaeth ehangach o weithgareddau, gan adeiladu ar rôl bresennol yr ysgol fel canolbwynt ar gyfer gwasanaethau, digwyddiadau, ac ymgysylltu â theuluoedd, sefydliadau partner, a'r gymuned leol. Disgwylir i well hygyrchedd a chyfleusterau gryfhau'r cysylltiadau hyn, gan gefnogi mwy o gyfranogiad a chreu cyfleoedd pellach ar gyfer defnydd cymunedol cynhwysol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gydweithio ag adrannau mewnol perthnasol, cynllunwyr trafnidiaeth, a rhanddeiliaid allanol drwy gydol y camau cynllunio a chyflawni i sicrhau bod yr effeithiau posibl yn cael eu lliniaru'n effeithiol a bod y datblygiad yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i gymuned yr ysgol a'r ardal ehangach.

Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod o'r farn y bydd y safle arfaethedig, gyda dyluniad a mesurau lliniaru priodol, yn darparu amgylchedd mwy hygyrch a mwy cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y gymuned na'r ddarpariaeth bresennol.

7. CANFYDDIADAU'R YMGYNGHORI Â'R DISGYBLION AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Ymgynghori â'r Disgyblion

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) ac ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei hystyried drwy gydol y broses ymgynghori, cynhaliwyd sesiwn ymgynghori bwrpasol i ddisgyblion gydag aelodau'r Cyngor Ysgol yn Ysgol Heol Goffa ar 6 Gorffennaf 2026.

At ei gilydd, cymerodd 15 o ddisgyblion ran yn y sesiwn ymgynghori. Roedd y disgyblion yn cynrychioli'r Ysgol Hŷn ac roeddent rhwng 15 a 18 oed. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr y Cyngor Ysgol yn bennaf, ochr yn ochr â disgyblion eraill a fynegodd ddiddordeb mewn dysgu am y cynnig a'i drafod.

Cyn y sesiwn, cafodd y disgyblion y Ddogfen Ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc i gefnogi eu dealltwriaeth o'r cynnig, ei resymeg a'i effaith bosibl. Rhoddwyd gwybod i'r disgyblion am y cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i ysgol bwrpasol newydd â 150 o

leoedd i ddisgyblion, gan gynnwys manylion am yr amgylcheddau dysgu arfaethedig, cyfleusterau arbenigol, mannau awyr agored a'r bwriad i'w weithredu o fis Medi 2029. Cafodd y cyfleusterau arfaethedig eu trafod a'u cymharu â'r adeiladau ysgol a'r amgylchedd dysgu presennol. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar sut y gallai'r ysgol newydd wella cyfleoedd dysgu, hygyrchedd a'r profiad addysgol cyffredinol i ddisgyblion.

Cyflwynwyd yr ymgynghoriad mewn modd oedd yn briodol i oedran, dealltwriaeth ac anghenion cyfathrebu'r disgyblion, gan eu galluogi i gymryd rhan yn llawn drwy weithgareddau trafod ac ymgysylltu â chymorth. Casglwyd adborth drwy drafodaeth grŵp strwythuredig a hwyluswyd gan staff. Anogwyd y disgyblion i ofyn cwestiynau, rhannu eu barn ac ystyried sut roedd yr ysgol newydd arfaethedig yn cymharu â'u profiadau presennol. Defnyddiwyd cwestiynau dilynol i archwilio safbwyntiau yn fwy manwl a nodi unrhyw bryderon, awgrymiadau neu feysydd o bwys arbennig i ddysgwyr.

Crynodeb o Adborth y Disgyblion

Ar y cyfan, mynegodd y disgyblion gefnogaeth gref i'r cynnig ac roeddent yn hynod gadarnhaol ynglŷn â datblygu adeilad ysgol newydd. Roedd y disgyblion yn cydnabod manteision posibl amgylchedd modern a phwrpasol gan groesawu'r cyfleoedd y gallai cyfleusterau gwell eu darparu i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Ymhlith y themâu allweddol a godwyd gan y disgyblion oedd:

- Cefnogaeth gref i'r cynnig i ddatblygu adeilad ysgol newydd.
- Brwdfrydedd dros ystafelloedd dosbarth mwy, cyfleusterau gwell ac amgylcheddau dysgu mwy modern.
- Diddordeb mewn sicrhau bod yr ysgol newydd yn darparu digon o le i ddisgyblion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Cyffro am y posibilrwydd o wella cyfleusterau arbenigol a mannau dysgu i gefnogi amrywiaeth ehangach o anghenion.
- Dymuniad am fannau awyr agored digonol ar gyfer hamdden, cymdeithasu a gweithgarwch corfforol yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Roedd y prif fater a godwyd yn ystod y sesiwn yn ymwneud â chapasiti arfaethedig yr ysgol newydd. Cwestiynodd y disgyblion a fyddai 150 o leoedd yn ddigonol i ateb y galw yn y dyfodol, gan nodi bod poblogaeth bresennol yr ysgol eisoes oddeutu 133 o ddisgyblion. Gofynnodd y disgyblion am sicrwydd y byddai digon o leoedd i ddarparu ar gyfer nifer cynyddol o ddysgwyr yn y dyfodol. Rhoddwyd gwybod iddynt fod y capasiti arfaethedig wedi'i ddatblygu mewn ymateb i dystiolaeth o'r galw cynyddol am leoedd ysgol arbenigol.

Gofynnodd y disgyblion hefyd am ragor o wybodaeth am y mannau awyr agored a oedd yn cael eu cynnig fel rhan o'r datblygiad. Roedd y dysgwyr yn awyddus i ddeall

sut y byddai'r mannau hyn yn cefnogi hamdden, rhyngweithio cymdeithasol a gweithgarwch corfforol, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod amgylcheddau dan do ac awyr agored yn ddigon mawr a hygyrch.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon sylweddol eraill yn ystod y sesiwn ymgynghori. Ar y cyfan, roedd y disgyblion yn gefnogol iawn i'r cynnig ac yn croesawu'r posibilrwydd o ysgol newydd wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu ymgysylltiad cadarnhaol ac adeiladol y disgyblion drwy gydol y broses ymgynghori ac yn cael ei galonogi gan y gefnogaeth gref a fynegwyd i'r cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i ysgol bwrpasol newydd. Mae'r Awdurdod yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau ystyriol a wnaed gan y disgyblion a'r cyfle i glywed yn uniongyrchol gan ddysgwyr am y cyfleusterau a'r amgylchedd dysgu sy'n bwysig iddynt.

Mae'r adborth yn dangos bod y disgyblion yn cydnabod manteision posibl amgylchedd dysgu arbenigol modern, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth mwy, cyfleusterau gwell, hygyrchedd gwell a mannau dysgu arbenigol. Mae'r Awdurdod yn nodi'r pwys y mae disgyblion yn ei roi ar gael digon o le dan do ac yn yr awyr agored i gefnogi dysgu, llesiant, hamdden a rhyngweithio cymdeithasol. Mae'r farn hon yn cyd-fynd ag amcanion y cynnig, sy'n ceisio darparu amgylchedd addysgol o ansawdd uchel sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y cwestiynau a godwyd ynglŷn â'r capasiti arfaethedig o 150 o leoedd. Mae'r capasiti arfaethedig wedi'i lywio gan asesiad manwl o niferoedd presennol y disgyblion, y galw yn y dyfodol, tueddiadau demograffig a'r gwaith strategol ehangach o gynllunio'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ledled Sir Gaerfyrddin. Bydd cynyddu'r capasiti presennol o 118 i 150 o leoedd yn ehangu'r ddarpariaeth arbenigol yn sylweddol ac mae wedi'i gynllunio i ymateb i'r galw cynyddol am leoedd. Mae'r Awdurdod yn bwrw ymlaen â darpariaeth ychwanegol yn ardal Llanelli, gan gynnwys datblygu capasiti CSA arbenigol yng Nghanolfan y Môr a lleoliadau cysylltiedig. Mae hyn yn adlewyrchu dull strategol o gynllunio'r ddarpariaeth ar draws gwahanol fathau o ADY yn hytrach na dibynnu ar un safle. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r galw am ddarpariaeth arbenigol drwy brosesau cynllunio ac adolygu digonolrwydd parhaus i sicrhau bod anghenion yn y dyfodol yn cael eu nodi'n briodol a bod digon o gapasiti ar gael ar draws y system addysg arbenigol ehangach.

Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi'r pwys y mae disgyblion yn ei roi ar ddysgu yn yr awyr agored, hamdden a mannau cymdeithasol. Mae'r cynnig yn cynnwys cyfleusterau a mannau chwarae gwell yn yr awyr agored sydd wedi'u cynllunio i gefnogi anghenion addysgol, cymdeithasol a llesiant dysgwyr. Wrth i'r prosiect fynd drwy'r camau dylunio a datblygu, gall disgyblion gyfrannu'n weithredol at drafodaeth drwy weithdai pwrpasol a bydd ystyriaeth yn parhau i gael ei rhoi i'r ffordd orau y gall mannau awyr agored

gefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu, hamdden a gweithgarwch corfforol.

Mae'r brwdfrydedd a fynegwyd gan y disgyblion dros well cyfleusterau arbenigol ac amgylcheddau dysgu yn cael ei groesawu'n arbennig. Nod y datblygiad arfaethedig yw darparu adeilad modern, hyblyg a hygyrch a fydd yn gwella cyfleoedd dysgu ac yn cefnogi'n well anghenion amrywiol a chymhleth disgyblion sy'n mynychu Ysgol Heol Goffa. Bydd yr adborth a gafwyd gan y dysgwyr yn helpu i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu'r prosiect ac yn sicrhau bod llais y disgyblion yn parhau i gael ei adlewyrchu drwy gydol y broses.

Hoffai'r Awdurdod Lleol ddiolch i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Mae eu barn wedi rhoi dealltwriaeth werthfawr ynghylch dyheadau a blaenoriaethau'r dysgwyr a bydd yn rhan o'r dystiolaeth sy'n cael ei hystyried wrth i'r cynnig fynd drwy'r broses benderfynu statudol.

8. YMATEB ESTYN

Mae ymateb Estyn yn gefnogol i'r cynnig i symud Ysgol Heol Goffa a chynyddu nifer y lleoedd i 150. Mae'n dod i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gryfhau'r ddarpariaeth ADY arbenigol yn Sir Gaerfyrddin, gan helpu'r awdurdod lleol i fodloni'r galw cynyddol am leoliadau arbenigol a lleihau dibyniaeth ar ddarpariaeth y tu allan i'r sir. Mae Estyn yn cydnabod y rhesymeg strategol glir dros y cynnig, gan nodi bod mwy o ddisgyblion nag o leoedd yn yr ysgol bresennol ers sawl blwyddyn ac nad oes lleoedd arbenigol gwag ar gael yn y sir. Mae'n cytuno y bydd ysgol bwrpasol newydd â chyfleusterau modern, mannau therapiwtig arbenigol a gwell darpariaeth awyr agored yn gwella addysgu a dysgu, llesiant, gofal a chymorth, a chyfleoedd o ran y cwricwlwm, yn enwedig i ddysgwyr ôl-16. Mae Estyn hefyd o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi asesu opsiynau amgen, goblygiadau trafnidiaeth, trefniadau pontio a risgiau'r prosiect yn briodol. Er ei fod yn nodi y gellid fod wedi darparu rhagor o fanylion am gostau cyffredinol a fforddiadwyedd yn y tymor hir, barn gyffredinol Estyn yw bod y cynnig yn debygol o wella ansawdd a safon y ddarpariaeth addysg arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin.

Mae ymateb llawn Estyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu ymateb Estyn i'r cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle pwrpasol newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150. Mae'r Awdurdod yn falch bod Estyn yn cydnabod y rhesymeg strategol glir dros y cynnig ac yn cytuno ei fod yn debygol o wella'r ddarpariaeth addysgol arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar draws Sir Gaerfyrddin. Mae Estyn yn cydnabod y galw sylweddol

a pharhaus am leoliadau arbenigol, diffyg lleoedd ADY gwag yn y sir, a'r pwysau sy'n deillio o'r ffaith bod mwy o ddisgyblion yn Ysgol Heol Goffa nag o leoedd ers sawl blwyddyn. Mae'r Awdurdod yn cytuno y bydd y cynnig yn cefnogi ei strategaeth ehangach i gynyddu'r ddarpariaeth arbenigol leol a lleihau dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r sir.

Mae'r Awdurdod yn croesawu cydnabyddiaeth Estyn y bydd y cynnig yn sicrhau manteision addysgol sylweddol drwy greu amgylchedd dysgu modern a phwrpasol. Fel y nodwyd gan Estyn, bydd yr ysgol newydd yn mynd i'r afael â chyfyngiadau'r adeilad a nodwyd ar y safle presennol ac yn darparu cyfleusterau dysgu, therapi a llesiant gwell sy'n diwallu anghenion cymhleth dysgwyr yn well. Mae'r Awdurdod yn cytuno y bydd gwell adeilad arbenigol, mwy o gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, a chyfleusterau gwell ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn cryfhau addysgu a dysgu, llesiant, gofal a chymorth, a chyflwyno'r cwricwlwm.

Mae'r Awdurdod hefyd yn nodi cydnabyddiaeth Estyn bod opsiynau amgen wedi'u hystyried yn briodol a bod y safle a ffefrir wedi'i ddewis yn dilyn asesiad o'r angen addysgol, addasrwydd y safle a gwaith cynllunio digonolrwydd yn y tymor hir. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn hyderus y bydd y lleoliad arfaethedig yn darparu ateb tymor hir cynaliadwy sy'n cefnogi'r galw yn y dyfodol ac yn galluogi cyfleoedd i gydweithio â chyfleusterau addysgol a chymunedol cyfagos.

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu barn Estyn bod materion cludiant dysgwyr, trefniadau pontio a risgiau'r prosiect wedi'u hystyried yn briodol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda disgyblion, teuluoedd, staff ac asiantaethau partner i sicrhau proses bontio wedi'i rheoli'n ofalus i'r ysgol newydd drwy raglen fesul cam sy'n canolbwyntio ar anghenion a llesiant y dysgwyr.

Mae'r Awdurdod yn nodi sylw Estyn ynglŷn â'r manylion sydd ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â chostau'r prosiect, fforddiadwyedd a goblygiadau cyllideb yn y tymor hwy. Bydd gwybodaeth ariannol fanwl yn parhau i gael ei datblygu a'i harchwilio drwy broses achos busnes Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a threfniadau llywodraethu sefydledig yr Awdurdod. Mae'r cynnig yn parhau i fod yn amodol ar i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r achos busnes a'r prosesau cyllido cysylltiedig.

At ei gilydd, mae'r Awdurdod yn croesawu asesiad cadarnhaol Estyn a'i gasgliad bod y cynnig yn debygol o wella ansawdd a safon y ddarpariaeth addysg arbenigol yn yr ardal. Mae'r Awdurdod yn credu bod y cynnig yn fuddsoddiad sylweddol mewn addysg arbenigol yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol ac y bydd yn darparu cyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif i ddysgwyr sy'n mynychu Ysgol Heol Goffa, gan gefnogi

deilliannau, llesiant a chyfleoedd gwell ar gyfer y cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol.

9. OPSIYNAU AMGEN

Fel rhan o'r broses ymgynghori, cafodd ymgyngoreion eu gwahodd i nodi unrhyw opsiynau amgen yr oeddent yn credu y dylai'r Awdurdod eu hystyried mewn perthynas â'r cynnig. Er bod llawer o'r ymatebwyr naill ai'n cefnogi'r cynnig fel y'i cyflwynwyd neu heb awgrymu unrhyw opsiynau amgen, cynigiodd nifer fach o ymgyngoreion opsiynau a gwelliannau ychwanegol.

Roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ailadrodd neu'n ehangu ar opsiynau amgen a oedd eisoes wedi'u hasesu a'u cyhoeddi yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol newydd arfaethedig i fwy na 150 o leoedd ac ailystyried ysgol arbennig fwy â 250 o leoedd sy'n cynnwys darpariaeth CSA. Mae'r opsiwn hwn eisoes wedi'i ystyried yn y ddogfen ymgynghori ac nid yw'r rhesymau dros ei ddiystyru wedi newid.

Awgrymodd ymatebwyr eraill greu darpariaeth arbenigol ychwanegol mewn mannau eraill yn y sir, gan ddefnyddio adeiladau gwag, ystyried model prifathrawiaeth weithredol/rhannu arweinyddiaeth ag Ysgol Pen Rhos, ac ystyried safle amgen.

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r awgrymiadau a ddaeth i law ynglŷn â chreu darpariaeth arbenigol ychwanegol mewn mannau eraill yn y sir, cyflwyno trefniant prifathrawiaeth weithredol neu rannu arweinyddiaeth ag Ysgol Pen Rhos, ac ystyried safleoedd amgen. Mae'r awgrymiadau hyn yn cael eu croesawu ac yn dangos y pwys y mae rhanddeiliaid yn ei roi ar sicrhau darpariaeth arbenigol ddigonol a chynaliadwy o ansawdd uchel i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mewn perthynas â darpariaeth arbenigol ychwanegol mewn mannau eraill yn y sir, mae'r Awdurdod yn parhau i adolygu digonolrwydd ADY ledled Sir Gaerfyrddin drwy ei God ADY ehangach 2025. Fodd bynnag, mae'r cynnig presennol yn ceisio mynd i'r afael â'r pwysau uniongyrchol ar gapasiti yn Ysgol Heol Goffa sydd wedi'u cadarnhau gan dystiolaeth a darparu adeilad arbenigol modern i ddysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol (ADD) ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl). Mae'r cynnydd arfaethedig i 150 o leoedd yn cynyddu'r capasiti yn sylweddol ac mae'r ysgol newydd wedi'i dylunio gan ystyried anghenion yn y dyfodol.

O ran awgrymiadau ar gyfer model prifathrawiaeth weithredol neu rannu arweinyddiaeth ag Ysgol Pen Rhos, mae trefniadau arweinyddiaeth yn faterion gweithredol nad ydynt yn rhan o gwmpas y cynnig trefniadaeth ysgol hwn. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r cyrff llywodraethu a'r rhanddeiliaid perthnasol yn gyfrifol am ystyried strwythurau arweinyddiaeth yn y dyfodol yn unol â deddfwriaeth berthnasol, canllawiau ac anghenion yr ysgolion dan sylw. Serch hynny, disgwylir i agosrwydd y ddwy ysgol greu cyfleoedd ar gyfer cydweithio a rhannu arferion da lle bo hynny'n briodol.

Mewn perthynas â safleoedd amgen, ystyriodd yr Awdurdod amrywiaeth o opsiynau cyn nodi'r lleoliad a ffefrir ger Ysgol Pen Rhos. Dewiswyd y safle a ffefrir ar ôl asesu addasrwydd addysgol, hygyrchedd, y gallu i'w gyflawni, y tir sydd ar gael, fforddiadwyedd a'r gallu i ddarparu cyfleuster pwrpasol sy'n gallu diwallu anghenion y dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r safle eisoes ym mherchnogaeth yr Awdurdod Lleol ac mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer gweithio'n well mewn partneriaeth a rhannu adnoddau. Am y rhesymau hyn, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn mai'r safle arfaethedig yw'r opsiwn mwyaf addas a allai gael ei gyflawni.

At ei gilydd, er bod yr awgrymiadau hyn wedi'u hystyried, mae'r Awdurdod wedi'i fodloni o hyd mai'r cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i'r safle arfaethedig a chynyddu nifer y lleoedd i 150 yw'r ateb mwyaf priodol, cyraeddadwy a chynaliadwy i fynd i'r afael â'r pwysau presennol a gwella'r ddarpariaeth arbenigol i ddysgwyr ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae dadansoddiad SWOT o'r opsiynau hyn yn Atodiad B.

10. NEWIDIADAU SY'N DEILLIO O'R YMGYNGHORIAD

Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys yr opsiynau amgen a awgrymwyd gan randdeiliaid, mae'r Awdurdod Lleol wedi'i fodloni bod yr holl opsiynau amgen rhesymol wedi'u hystyried a'u hasesu'n briodol. Roedd yr ymatebion yn dangos cefnogaeth gref i ddarparu ysgol arbennig newydd ar gyfer Ysgol Heol Goffa, ac roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau amgen yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y lleoedd, diogelu'r ddarpariaeth at y dyfodol, gwella cyfleoedd cydweithio, neu ystyried darpariaeth arbenigol ehangach ar draws y sir.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried y sylwadau hyn ochr yn ochr â'r dystiolaeth addysgol, ariannol, gweithredol a strategol a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori a'r pecyn asesiadau effaith. Yn dilyn yr asesiad hwn, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o'r farn mai'r cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i ysgol bwrpasol newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150 yw'r ateb mwyaf priodol, cyraeddadwy a chynaliadwy i fynd i'r afael â'r pwysau presennol a'r pwysau yn y dyfodol ar ddarpariaeth ADY arbenigol yn Sir Gaerfyrddin ac nad oes unrhyw newidiadau i'r cynnig.

11. CASGLIAD

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth ysgubol i'r cynnig. Er bod y rhanddeiliaid wedi gofyn cwestiynau dilys ynghylch digonolrwydd yn y tymor hir a nifer y lleoedd yn y dyfodol, mae'r pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â maint y ddarpariaeth yn hytrach na gwrthwynebu'r egwyddor o ddatblygu ysgol newydd. Felly, mae'r ymgynghoriad wedi cadarnhau'r angen am fuddsoddiad mewn darpariaeth arbenigol ac wedi darparu tystiolaeth gref i gefnogi bwrw ymlaen â'r cynnig.

Bydd y cynnig yn darparu gwelliannau sylweddol i'r amgylchedd dysgu, yn cynyddu capasiti arbenigol lleol ac yn cefnogi deilliannau gwell i ddysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog ledled y sir.

12. ARGYMHELLIAD

Ar ôl adolygu'r Adroddiad Ymgynghori yn ofalus ac ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law, gan gynnwys y rhai gan rieni, disgyblion, staff, llywodraethwyr, Estyn a rhanddeiliaid eraill, argymhellir bod y Cabinet:

- yn nodi'r materion a godwyd drwy gydol y broses ymgynghori, ynghyd ag ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny;
- yn cadarnhau bod yr ymgynghoriad wedi'i wneud yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026);
- yn cytuno, yn amodol ar ei ystyriaeth ei hun ac unrhyw addasiadau terfynol y mae'n barnu eu bod yn briodol mewn perthynas â'r gweithredu, y dylid cyhoeddi Hysbysiad Statudol i gynnig symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150.

Byddai cyhoeddi Hysbysiad Statudol yn caniatáu i'r broses statudol symud i'r cam nesaf, lle gellir gwneud sylwadau pellach yn ystod y cyfnod gwrthwynebu a'u hystyried cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud. Ni fydd yr ymatebion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

13. Y CAMAU NESAF

Bydd y Cabinet yn cael yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw am gymeradwyo'r cynnig i symud ymlaen i'r Hysbysiad Statudol ai peidio, neu ei gymeradwyo gyda diwygiadau. Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen. Hysbysir yr holl ymgyngoreion y mae'n ofynnol rhoi gwybod iddynt fod yr adroddiad ar gael.

14. ATODIAD A – YMATEB ESTYN

Cynnig i adleoli Ysgol Heol Goffa, Sir Gaerfyrddin i safle newydd a chynyddu ei chapasiti i 150

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Crynodeb / Casgliad

Mae'r cynnig yn debygol o gynyddu darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o fewn Sir Gaerfyrddin, a gwella capasiti'r awdurdod lleol i fodloni'r galw cynyddol am leoliadau arbenigol. Mae'r cynigiwr yn darparu rhesymeg strategol glir ar gyfer y cynnig yn seiliedig ar dystiolaeth o bwysau ar ddarpariaeth bresennol, galw cynyddol am leoliadau arbenigol a'r angen i gynyddu capasiti arbenigol o fewn yr awdurdod.

At ei gilydd, mae'n ymddangos bod y cynnig yn debygol o wella safon y ddarpariaeth addysg arbenigol yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr yn darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae'r ddogfen ymgynghori a thystiolaeth ategol yn nodi galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol ledled Sir Gaerfyrddin ac yn dangos bod mwy o ddisgyblion nag o leoedd ar safle'r ysgol bresennol, sy'n ei roi dan bwysau sylweddol. Mae'r cynnig yn ffurfio rhan o strategaeth ehangach yr awdurdod lleol i gynyddu capasiti ADY arbenigol a lleihau dibyniaeth ar leoliadau'r tu allan i'r awdurdod.

Mae'r cynigiwr yn rhoi disgrifiad clir o'r cynnig a threfniadau gweithredu. Y cynnig yw adleoli Ysgol Heol Goffa a chynyddu ei chapasiti i 150. Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r broses statudol a'r trefniadau gweithredu arfaethedig yn briodol, ac yn amlinellu'n glir sut gall rhanddeiliaid ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu ystod o fanteision disgwyliedig y cynnig yn glir. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu nifer y lleoedd arbenigol o fewn Sir Gaerfyrddin, gwella

cyfleusterau presennol a chynyddu mynediad at leoliadau lleol, a galluogi dysgwyr i elwa ar gymorth arbenigol. Mae hefyd

yn ymddangos bod y cynnig yn debygol o gyfrannu at allu'r awdurdod lleol i gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn cysylltiad ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n ymddangos bod y rhain yn rhesymol.

Mae'r cynigiwr yn ystyried dewisiadau eraill yn lle'r sefyllfa bresennol yn briodol ac yn esbonio pam mae'r ardal ger Ysgol Pen Rhos wedi cael ei dewis fel y safle sy'n cael ei ffafrio. Mae'r cynnig yn dangos bod yr awdurdod wedi ystyried cynllunio digonolrwydd ehangach a'r galw am ddarpariaeth arbenigol yn y dyfodol, gan amlinellu manteision ac anfanteision.

Mae'r cynigiwr yn darparu manylion perthnasol am dir ac adeiladau, gan nodi mai'r awdurdod lleol sy'n berchen ar y safle newydd arfaethedig, ac y byddai safle presennol Ysgol Heol Goffa yn dychwelyd i'r Is-adran Eiddo Corfforaethol.

Mae'n ymddangos bod trefniadau teithio dysgwyr wedi cael eu hystyried yn briodol, ac mae'r cynnig yn awgrymu'n rhesymol y bydd teithio a mynediad i'r safle newydd yn well ac o fudd i ddysgwyr. Mae'r cynnig yn nodi cynnydd mewn amser teithio i rai dysgwyr. Fodd bynnag, gan fod y safle newydd 3 milltir o'r safle presennol, mae hyn yn debygol o gael effaith gyfyngedig.

Mae'r cynigiwr wedi dangos yn effeithiol sut bydd lleoedd dros ben yn cael eu heffeithio. Nid oes lleoedd dros ben ar gyfer dysgwyr ag ADY yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, ac mae mwy o ddisgyblion nag o leoedd wedi bod yn Ysgol Heol Goffa am y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu bwriadau cyllid ehangach, ond yn rhoi manylion cyfyngedig am y costau cyffredinol, fforddiadwyedd a goblygiadau cyllideb yn y tymor hwy.

Mae'r cynigiwr yn nodi risgiau yn gysylltiedig â'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori, ac yn amlinellu sut bydd y rhain yn cael eu rheoli, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod anghenion disgyblion unigol yn cael eu hystyried a'u cefnogi trwy gydol y cyfnod gweithredu a phontio i'r safle newydd.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r cynnig hwn.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth feddylgar i'r effaith y bydd y cynnig yn ei chael ar ansawdd a safonau mewn addysg, ac wedi cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol o adroddiad arolygu diweddaraf Estyn sy'n amlinellu cyfyngiadau ynghylch diffygion adeiladau. Mae'n awgrymu y bydd mynediad i safle fydd wedi'i moderneiddio, gydag offer yr 21ain ganrif a gofod cynyddol yn yr awyr agored, o fudd i ansawdd a safonau addysgu a dysgu lles, gofal, cymorth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yr effaith ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn i'w dysgwyr. Mae'n awgrymu y bydd y cyfleusterau a'r amgylchedd newydd yn darparu cyfleoedd dysgu gwell ar gyfer dysgwyr na darpariaeth bresennol, ac mae hyn yn

cynnwys darpariaeth well ar gyfer addysgu disgyblion ôl-16 gyda medrau bywyd a medrau galwedigaethol, yn ogystal â mwy o ofod a darpariaeth well ar gyfer chwarae ar safle'r ysgol newydd arfaethedig.

Mae'r cynnig yn amlinellu'n addas sut bydd cyfleusterau gwell ar safle'r ysgol newydd yn ymestyn darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY tra'n lleihau'r angen am leoliadau'r tu allan i'r sir, hefyd.

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried tarfu ar ddysgwyr a sut gellir lleihau hyn i'r eithaf yn briodol. Bydd dysgwyr yn parhau yn adeilad yr ysgol bresennol hyd nes bydd y safle newydd wedi'i gwblhau. Mae rhaglen bontio raddol yn cael ei chynllunio i sicrhau cyfnod pontio esmwyth i ddysgwyr i'r safle newydd.

15. ATODIAD B – DADANSODDIAD SWOT O'R OPSIYNAU AMGEN

Opsiwn Amgen 1 – Prifathrawiaeth Weithredol / Rhannu Arweinyddiaeth ag Ysgol Pen Rhos	
Cryfderau	**Gwendidau**
Gallai hyrwyddo cydweithio agosach rhwng Ysgol Heol Goffa ac Ysgol Pen Rhos, yn enwedig wrth rannu arbenigedd, dysgu proffesiynol ac adnoddau.	Mae'r ysgolion yn gwasanaethu gwahanol garfanau o ddysgwyr sydd â gofynion addysgol, bugeiliol a gweithredol penodol, sy'n golygu bod angen arbenigedd sylweddol o ran arweinyddiaeth arbenigol.
Potensial ar gyfer cydweddiad strategol gwell rhwng ysgolion cyfagos o ran y cwricwlwm, cynhwysiant ac ymgysylltu cymunedol.	Gallai maint a chymhlethdod y gwaith o reoli ysgol arbennig fawr ac ysgol gynradd brif ffrwd osod gofynion sylweddol ar gapasiti arweinyddiaeth.
Gallai greu arbedion effeithlonrwydd mewn strwythurau arweinyddiaeth a chyfleoedd ar gyfer cynllunio olyniaeth.	Mae risg y gallai blaenoriaethau ac anghenion penodol y naill ysgol neu'r llall gael llai o sylw o ran arweinyddiaeth.

Gallai hwyluso rhannu cyfleusterau ac adnoddau cymunedol lle bo hynny'n briodol.	
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ar y cyd, rhwydweithio i staff a rhannu arbenigedd.	Cyfyngiadau posibl ar gapasiti arweinyddiaeth sy'n effeithio ar flaenoriaethau gwella ysgol yn y naill leoliad neu'r llall.
Gallai gefnogi llwybrau pontio cryfach a mentrau cynhwysiant ehangach rhwng ysgolion.	Gallai strwythurau staffio, llywodraethu ac atebolrwydd fynd yn fwy cymhleth.
Potensial i gryfhau ymgysylltu cymunedol drwy fentrau a digwyddiadau ar y cyd.	Efallai y bydd rhanddeiliaid yn credu bod hunaniaeth unigryw a ffocws arbenigol Ysgol Heol Goffa yn cael eu lleihau.
Gellid ei ystyried yn y dyfodol os bydd y ddau gorff llywodraethu yn penderfynu y byddai'n sicrhau budd addysgol.	Gallai newidiadau i drefniadau arweinyddiaeth greu ansicrwydd wrth roi'r prosiect ysgol newydd ar waith.
Asesiad Cyffredinol Roedd nifer fach iawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu y dylid ystyried trefniant Prifathrawiaeth Weithredol neu rannu arweinyddiaeth rhwng Ysgol Heol Goffa ac Ysgol Pen Rhos fel dull amgen. Nododd yr ymatebwyr y gallai trefniant o'r fath hyrwyddo cydweithio rhwng yr ysgolion, darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu arbenigedd a chefnogi mwy o gysondeb mewn arweinyddiaeth	

strategol, yn enwedig mewn perthynas â datblygu'r cwricwlwm, cynhwysiant a hybu'r Gymraeg. Tynnodd un ymatebydd sylw yn benodol at fanteision posibl cael un pennaeth o ran darparu gweledigaeth unedig a chryfhau cydweithio rhwng y ddwy ysgol.

Mae Ysgol Heol Goffa ac Ysgol Pen Rhos yn lleoliadau addysgol sylfaenol wahanol â dibenion, poblogaethau dysgwyr, cyfrifoldebau statudol a gofynion gweithredol gwahanol. Mae Ysgol Heol Goffa yn darparu addysg arbenigol iawn i ddysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol (ADD), anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl), awtistiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Mae hyn yn galw am arweinyddiaeth arbenigol, cydweithio amlasiantaeth helaeth, goruchwylio darpariaeth therapiwtig, trefniadau diogelu cymhleth, cynllunio'r gweithlu ar gyfer staff arbenigol, a dealltwriaeth fanwl o ddeddfwriaeth ac ymarfer ADY. Mewn cyferbyniad, mae Ysgol Pen Rhos yn ysgol gynradd brif ffrwd â chwricwlwm, fframwaith atebolrwydd a phroffil dysgwyr gwahanol.

Mae'r Awdurdod o'r farn bod arwain ysgol arbennig o'r math hwn yn rôl sylweddol ynddo'i hun ac yn galw am gapasiti arweinyddiaeth penodedig. Wrth i'r galw am ddarpariaeth arbenigol barhau i gynyddu, mae'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â rheoli a datblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion sylweddol a chymhleth hefyd wedi cynyddu. Gallai trefniant rhannu Prifathrawiaeth Weithredol beri risg o lastwreiddio ffocws arweinyddiaeth ar adeg pan fo angen arweinyddiaeth gref ac amlwg ar y ddwy ysgol i gyflawni eu blaenoriaethau a'u hamcanion gwella.

Hefyd, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y byddai model rhannu arweinyddiaeth yn sicrhau manteision addysgol mesuradwy, deilliannau dysgwyr gwell neu effeithlonrwydd gweithredol sy'n ddigonol i orbwyso'r cymhlethdod ychwanegol y byddai'n ei greu. Gall trefniadau rhannu arweinyddiaeth beri heriau yn ymwneud â llywodraethu, atebolrwydd, gwneud penderfyniadau, rheoli staff a blaenoriaethu strategol, yn enwedig pan fydd gan ysgolion gyd-destunau addysgol a blaenoriaethau gwella sylweddol wahanol.

Er bod cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng Ysgol Heol Goffa ac Ysgol Pen Rhos yn cael eu cydnabod ac y gallent ddatblygu waeth beth fo'r trefniadau arweinyddiaeth, nid yw'r Awdurdod o'r farn bod rhannu Prifathrawiaeth

Weithredol yn opsiwn amgen addas nac yn un sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â'r cynnig. Byddai'r opsiwn yn peri cymhlethdod arweinyddiaeth a llywodraethu ychwanegol heb ddarparu ateb clir i'r heriau strategol sy'n wynebu darpariaeth addysg arbenigol. O ganlyniad, nid yw Opsiwn Amgen 1 yn cael ei ystyried yn opsiwn amgen hyfyw ac felly mae wedi'i ddiystyru.

Opsiwn Amgen 2 – Ystyried Safleoedd Amgen, gan gynnwys safleoedd gwag yn Llanelli	
Cryfderau	**Gwendidau**
Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn ei ystyried yn lleoliad canolog a chyfarwydd yn Llanelli.	Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno bod y safle ar gael, bod modd ei gyflawni neu ei fod yn addas ar gyfer ysgol arbennig â 150 o leoedd.
Gallai ddarparu cyfleoedd ar gyfer mynediad i'r gymuned yn dibynnu ar gyfyngiadau'r safle.	Nid yw'r safle wedi bod yn rhan o'r gwaith manwl o ran dichonoldeb ac arfarnu opsiynau a wnaed gan yr Awdurdod.
Efallai y byddai'n cael ei ystyried yn agosach at rai gwasanaethau ac amwynderau.	Costau ychwanegol posibl mewn perthynas â chaffael tir a chymhlethdodau cyfreithiol os nad ydyw eisoes ym mherchnogaeth yr Awdurdod Lleol.
Gallai olygu llai o symud ar gyfer nifer fach o'r defnyddwyr presennol.	Byddai'n achosi oedi sylweddol o ran cyflawni'r prosiect oherwydd yr angen am ymchwiliadau safle pellach, arolygon a diwygiadau i'r achos busnes.

Cyfleoedd	Bygythiadau
Gellid ei ystyried fel rhan o unrhyw waith cynllunio strategol yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth addysg arbenigol.	Byddai oedi wrth fwrw ymlaen â'r prosiect yn ymestyn y pwysau presennol ar yr adeilad sy'n orlawn yn Ysgol Heol Goffa.
Potensial ar gyfer manteision adfywio yn dibynnu ar gynlluniau datblygu'r safle yn y dyfodol.	Gallai cyfyngiadau cynllunio, amgylcheddol, trafnidiaeth neu seilwaith ychwanegol ddod i'r amlwg.
Diddordeb cymunedol posibl mewn cyfleoedd ailddatblygu amgen.	Risg i amserlenni cyllid Llywodraeth Cymru a chymeradwyo achos busnes pe bai angen asesiad safle newydd.
Cyfle i gymharu safleoedd newydd pe bai'r amgylchiadau'n newid yn sylweddol.	Gallai costau uwch y prosiect ac ansicrwydd beryglu'r gwaith o ddarparu'r ysgol newydd.

Asesiad Cyffredinol

Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gefnogaeth gyfyngedig i ystyried safleoedd amgen ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig. Y prif leoliadau amgen a awgrymwyd oedd hen safle'r ganolfan hamdden ac adeiladau gwag yn Llanelli, yn enwedig hen adeiladau'r coleg yn Stebonheath. Cafodd yr awgrymiadau hyn eu cynnig gan nifer fach o ymatebwyr unigol yn hytrach na bod yn thema a gododd dro ar ôl tro ar draws yr ymgynghoriad. Prif ffocws yr adborth oedd yr angen am ysgol fwy a chynyddu'r capasiti yn y dyfodol, yn hytrach na phryderon ynghylch y lleoliad arfaethedig ei hun.

Cryfderau'r opsiwn amgen hwn yw ei fod yn dangos parodrwydd i ystyried ailddefnyddio adeiladau presennol neu safleoedd tir llwyd ac y gallai gefnogi amcanion adfywio ehangach. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai adeiladau gwag eisoes ddarparu lle sylweddol ac y gallent osgoi'r angen am ddatblygiad adeilad newydd. Hefyd un farn a fynegwyd oedd y gallai symud yr ysgol i rywle arall ryddhau safle presennol Heol Goffa ar gyfer defnyddiau addysgol amgen.

Fodd bynnag, mae gwendidau sylweddol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth drwy'r broses ymgynghori i ddangos y gallai unrhyw safle neu adeilad gwag a nodwyd fodloni gofynion adeilad arbenigol dysgwyr ag Anawsterau Dysgu Difrifol (ADD), Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog (ADDLl) ac Anghenion Dysgu Ychwanegol cysylltiedig heb addasiad sylweddol. Hefyd, ni chyflwynwyd unrhyw asesiadau dichonoldeb, cyflwr, hygyrchedd, addasrwydd na chostau manwl i gefnogi hyfywedd y safleoedd a awgrymwyd.

Mae'r safle a ffefrir ger Ysgol Pen Rhos wedi'i ddewis ar ôl ystyried addasrwydd addysgol, hygyrchedd, y tir sydd ar gael, y gallu i'w gyflawni a chydweddiad strategol. Mae'r safle ym mherchnogaeth yr Awdurdod Lleol, yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio agosach â darpariaeth addysgol gyfagos, ac yn caniatáu i'r prosiect symud ymlaen heb yr oedi a'r risgiau sy'n gysylltiedig â nodi, caffael, asesu a datblygu safle amgen. Roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'n benodol y manteision addysgol sy'n deillio o fod yn agos at Ysgol Pen Rhos.

Y brif risg sy'n gysylltiedig â mynd ar drywydd Opsiwn Amgen 2 yw y gallai ymchwiliadau safle pellach, negodiadau caffael, ystyriaethau cynllunio ac astudiaethau dichonoldeb achosi oedi wrth gyflawni darpariaeth arbenigol y mae mawr angen amdani. O ystyried annigonolrwydd cydnabyddedig yr adeilad presennol a'r galw cynyddol am leoedd, gallai unrhyw oedi sylweddol gael effaith andwyol ar ddysgwyr, staff a theuluoedd sy'n aros am gyfleusterau gwell. Roedd yr adborth i'r ymgynghoriad yn pwysleisio'r angen i ddarparu'r ysgol newydd ar frys ac annigonolrwydd yr adeilad presennol.

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod yr awgrymiadau ynglŷn â hen safle'r ganolfan hamdden a'r adeiladau gwag yn Llanelli, nid yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn

darparu digon o dystiolaeth i ddangos y byddai'r opsiynau amgen hyn yn sicrhau manteision addysgol, gweithredol neu strategol sy'n cyfateb i'r safle a ffefrir. O ganlyniad, nid yw Opsiwn Amgen 2 yn cael ei ystyried yn ateb a ffefrir nac yn ateb y gellid ei gyflawni o'i gymharu â'r cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i'r safle sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol ger Ysgol Pen Rhos. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, nid oes digon o gyfiawnhad i fynd ar drywydd asesiad pellach o safleoedd amgen fel rhan o'r cynnig presennol.